| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **13, MAI, 2010** |
| **PWNC** | **DIWYGIO'R CYFANSODDIAD.** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO DIWYGIADAU I'R CYNLLUN DIRPRWYO I BWYLLGORAU A'R CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD ADNODDAU.** |

1. Mae angen diwygio y Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau a'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn sgil penderfyniad y Cyngor i ddiddymu rhai pwyllgorau ac i drosglwyddo'r stoc tai.

2. Yn Atodiad 'A' mae'r Cynllun Dirprwyo diwygiedig i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau. Yn Atodiad 'B' mae Cynllun Dirprwyo diwygiedig i Swyddogion.

3. Mae'r diwygiadau i'r Cynlluniau i'w gweld mewn print bras italic. Yng ngweddill yr adroddiad rhoddir crynhoad o'r newidiadau.

4. Mae'r Pwyllgor Cwynion yn cael ei ddiddymu gyda'i swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo yn rhannol i'r Pwyllgor Archwilio (mewn perthynas â ystyried adroddiadau cyhoeddus Ombwdsmon a dysgu gwersi o gwynion), ac yn rhannol i'r Swyddog Monitro (mewn perthynas â thalu iawndal a derbyn adroddiadau llai cynhennus gan yr Ombwdsmon).

5. Diddymir yr Is-bwyllgor Elusennau gyda'i swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i'r Pennaeth Datblygu'r Economi a Chymuned i'w gweithredu fel rhan o Gist Gwynedd.

6. Mae'r Is-bwyllgor Trethi Annomestig yn cael ei ddiddymu am nad oes gwaith iddo a bod modd sefydlu pwyllgor ad-hoc pe bai galw.

7. Diddymir y Panel Adolygu Tenantiaethau Cyflwyniadol gan fod y stoc tai wedi trosglwyddo.

8. Mae Hawliau Dirprwyedig y Pennaeth Tai mewn perthynas â rheoli stoc tai wedi eu dileu gan nad oes eu hangen mwyach ac mae gweddill swyddogaethau y Pennaeth Tai wedi eu trosglwyddo i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. Cyflwynir mân ychwanegiadau a diwygiadau i'r rhestr ddeddfwriaeth sydd wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio i'w gorfodi gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

**ARGYMHELLIAD.**

10. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn y diwygiadau a mabwysiadau'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau a'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion fel rhan o'r Cyfansoddiad.